# JONES, JOHN FOULKES (1826 - 1880), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** John Foulkes Jones
**Dyddiad geni:** 1826
**Dyddiad marw:** 1880
**Priod:** Margaret Jones (née Jones)
**Rhiant:** Lydia Jones (née Foulkes)
**Rhiant:** John Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** William John Thomas

Ganwyd ym Machynlleth, 6 Mehefin 1826, yn fab i John Jones o'r Fron Deg (Wrecsam) a'i wraig Lydia, merch i Thomas Foulkes ac yres i Simon Lloyd o'r Bala. Anfonwyd Foulkes Jones, yn 13 oed, i'r coleg yn y Bala a oedd wedi ei agor gan Lewis Edwards a David Charles. Yn 1843, penderfynodd fynd yn bregethwr ac aeth am ail dymor i'r Bala, ac yn 1844 i Brifysgol Edinburgh. O 1848 hyd 1853 bu'n genhadwr ar ororau Maldwyn; symudodd i Lerpwl yn 1853; ordeiniwyd ef yn 1856; a symudodd i Gaer yn 1857. Teithiodd ar y Cyfandir ac yn yr Aifft a gwlad Canaan ac yn 1860 cyhoeddodd lyfr, *Egypt in its Biblical Relations and Moral Aspects*. Priododd, 1861, Margaret, ferch Lewis Jones o Amwythig; cawsant bump o blant. Yn 1863, cymerodd fugeiliaeth eglwys Maengwyn yn ei dref enedigol, a bu farw yno 14 Ebrill 1880. Yr oedd yn bregethwr hynod boblogaidd.

## Awdur

**Y Parchedig William John Thomas**, (1902 - 1985)

## Ffynonellau

Joseph Owen, *Cofiant a Llythyrau ynghyda Phregethau y Parch. J. Foulkes-Jones, B.A., Machynlleth* (Machynlleth 1884)

## Delweddau

Hugh Hughes, Lydia Jones: Mother of the Reverend John Foulkes Jones

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733421

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu